Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Iau Rhagfyr 10

Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, M.Skerrett, Marion L Hughes, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 29.10.20, cynnig L.Roberts, cefnogi E.R.Noble

Zoom. Cafwyd eglurhad gan C.Brewer ynglŷn â'r trefniant fydd yn dod i ben ar Ionawr 5ed, cytunwyd i drefnu cyfnod o flwyddyn, cynnig M.L.Hughes, cefnogi L.Roberts. Diolchodd y Clerc i C.Brewer am fod mor barod i drefnu ac i fod yn hwylusydd.

Adroddiad Liz. Diolchwyd i L.Roberts am ei hadroddiad manwl oedd wedi ei anfon i bawb cyn y cyfarfod. Mae atebion a sylwadau ar sawl eitem o waith y Cyngor lleol yn gynwysedig yn ei hadroddiad fydd yn golygu na fydd angen trafod rhai ohonynt.
Roedd Liz yn awyddus i gael trafod a chael barn y Cyngor ar ei thrafodaethau i gael goleuadau ar y polion hyd rhan o'r A470 drwy'r pentref. Mae P.Sagar yn gweithio i drefnu cael peintio'r polion a chael lampau ar ffurf lanterni. Liz wedi trafod gyda NMWTRA i gael cysylltiadau trydan ar y polion ar gyfer y goleuadau Nadoligaidd, D&C Jones wedi cynnig gwneud y gwaith yma. Liz wedi cael 2 amcangyfrif ar gyfer y goleuadau, credai'r Aelodau fod hyn yn syniad da a derbyniwyd yr amcan gyfrif isaf ar gynnig M.Skerret, C.Brewer yn cefnogi a phawb o blaid.

Cyfarfod Blynyddol.
Clerc wedi cynnwys manylion Swyddogion a phwyllgorau yn yr Agenda. Cynigodd E.R.Noble gyda M.Skerrett yn cefnogi a phawb o blaid y dylai'r holl Aelodau aros yn eu swyddi hyd diwedd y tymor. Hefyd roedd cadw prisiau'r Fynwent yr un fath yn yr un cynigiad.

Heddlu. L.Roberts mewn cysylltiad â hwy ynglŷn â materion yn y pentref.

Yr A470. Llywodraeth Cymru yn trefnu arolwg ynglŷn â gosod terfyn 20mya trwy ardaloedd trigiannol ar rwydwaith priffyrdd. Mwy o fanylion i'w anfon i'r awdurdodau lleol.

Cyngor Sir. Cadarnhaodd L.Roberts fod K.Jones o'r Cyngor Sir yn weithgar iawn yn trefnu gwaith yn yr ardal. Gwaith arbennig wedi'i gwblhau ar y llwybyr ger Pont Bwlch.

Llwybrau. Cysylltu a Ioan Davies am adroddiad cyffredinol am y sefylla yn yr ardal.

Yr Orsaf. Cwmni D&C Jones wedi cwblhau gwaith clirio a thacluso yn nhir yr Orsaf, Clerc i anfon llythyr i Darren i ddiolch iddo am drefnu hyn.

Pont Carreg Alltrem. Clerc i gysylltu â M.Grant.

Gwasanaeth Bysiau/Trenau. Cytunwyd â chais gan Steph Smith i gael gosod bwrdd gwybodaeth electroneg yn yr arosfan yn Nolwyddelan. Roedd peth dryswch ynglŷn â beth fydd y trefniant rhwng bws a tren, nododd M.Skerrett mai dim ond 4 tren y dydd fydd yn rhedeg - beth am yr X19? Mae L.Roberts yn trafod hyn gyda'r gwahanol gwmniau.

Pontydd yn yr Ardal. Anfon at B.Shiland CBSC am adroddiad.

Goleuo'r Goeden Nadolig. Y farn gyffredinol oedd fod y trefniant 'rhithiol' ar gyfer y Nadolig wedi gweithio'n dda iawn, y fideo yn arbennig. Cytunwyd i gydnabod L.Sharpe, K.Jenkins a B.Atkins am eu cyfraniadau at y llwyddiant.

Cydnabyddiaeth Aelodau - Trafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Cadarnhaodd L.Roberts fod K.Phillips wedi anfon y Cynllun Busnes at Llywdoraeth Cymru.

Sul y Cofio. Cytunwyd fod y trefniadau wedi gweithio'n dda iawn.

Coeden Nadolig. A.Farrar wedi trefnu i gael coeden, Ken a Selwyn wedi helpu gyda'r goleuo.

Toiledau. Y gwaith yn mynd yn ei flaen ond ni chafwyd cyfarfod gyda S.Teale ar y safle gyda'r gweithwyr, Clerc yn dal i geisio trefnu hyn. Clerc wedi trefnu i gael cyfreithiwr. Hefyd rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa gyda glanhawr, diddordeb pendant gan berson yn y pentref. Rhoes y Clerc adroddiad wedi iddo gysylltu â Chynghorau eraill sydd wedi bod yn yr un sefyllfa o ran cymryd gofal o doiledau lleol. Roedd pawb yn gytun ar lliw y paent.

Y Fynwent/Gofgolofn. Trefnwyd dyddiad i gyfarfod yn y Gofgolofn a'r Fynwent i drafod gwaith sydd ei angen yn y ddau safle.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu cynnig C.Brewer, cefnogi T.W.Jones.

Scottish Power. Cadarnhaodd L.Roberts ei bod mewn cysylltiad ag O'Connor ynglŷn â gwaith yn Stryd y Bont - maent yn trefnu ar gyfer y gwaith yma. Pan fydd yr holl waith wedi'i gwblhau bydd trefniant i gerdded y pentref gyda'r Cwmni i drefnu unrhyw waith arall fydd ei angen.

Band eang. Bydd cynrychiolwyr yn cael cyfarfod i drafod hyn ym Mhont y Pant a Roman Bridge.

NRW. L.Roberts i drefnu cyfarfod i drafod parcio ar dir o eiddo NRW.

Terfyn gyrru. Trafodwyd yr arwyddion 20mya ym Maes y Braich, Pentre Bont a ger yr Ysgol,gofynwyd pam ddim drwy'r pentref cyfan? Trafod a W.Roberts.

Cyflwr ffordd. C.L.Price yn nodi fod cyflwr y Ffordd o gefn y Castell i Benrhiw yn wael, cysylltu â K.Jones.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Clerc i alw cyfarfod Zoom arall yn nechrau mis Ionawr 2021.